COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 22 MAWRTH 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd D Patel – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | HJ David | SK Dendy |
| J Gebbie | DG Howells | JC Radcliffe | SR Vidal |
| PJ White | HM Williams | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Lewis, KL Rowlands, CE Smith a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Emma Blandon | Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu |
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Daniel Cook | Swyddog Polisi Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Bethan Lindsey-Gaylard | Cydlynydd Cam-drin Domestig |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

17. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

18. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar 23 Tachwedd 2017 fel rhai gwir a chywir.

19. CAMDRINIAETH DDOMESTIG, TRAIS YN ERBYN MENYWOD A THRAIS RHYWIOL: Y DIWEDDARAF AR GYMORTH I DDIODDEFWYR YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, a'i ddiben oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r materion a wynebir gan ddioddefwyr cam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol mewn cymunedau Penybont-ar-Ogwr, ac amlinellu'r llwybrau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr o'r fath.
Cyflwynodd y Cadeirydd y Rheolwr Busnes Rhanbarthol o Calan DVS a chydgysylltydd cam-drin domestig y Cyngor, a roddodd gyflwyniad Power Point ar y cyd ar y pwnc pwysig hwn.

Roedd y cyflwyniad wedi cynnwys y materion canlynol:-

- Cefndir ac amcanion
- Cam-drin cam-domestig ym Mhenybont
- Sut mae Penybont yn ymateb
- Y Dioddefwyr
- Y Tramgwyddwyr

- Plant
- Assia Suite (Safle un-stop ar gyfer cymorth)

Y llwybrau cymorth a ddarperir yn sgil cyflwyno'r 'Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015' – a gafodd Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015.

Cefnogwyd y Ddeddf uchod hefyd gan rai darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ymhlith eraill.

Nod y Ddeddf uchod oedd atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn sicrhau bod pob awdurdod perthnasol yn gweithio yn unol â gweledigaeth strategol gyfunol a rennir, a fydd yn arwain at wasanaethau gwell a mwy cyson ar gyfer y rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu arweinyddiaeth proffil uchel ar y gwahanol faterion, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu ar lefel leol a chenedlaethol.

Esboniodd y swyddogion bod y Ddeddf hefyd wedi cyflwyno gofynion o ran:

a) Gweinidogion Cymru iddynt:

1. Baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol:
2. Penodi Ymgynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a ffurfiau eraill o Drais, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar sail Rhyw.

b) Yr angen i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau GIG (yr awdurdodau perthnasol) i baratoi a chyhoeddi strategaehau er mwyn cyfrannu tuag at gyflawni pwrpas y Ddeddf

c) Yr angen i Awdurdodau Lleol i adrodd ar sut y maent yn mynd i'r afael â materion Trais as Sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o fewn eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys unrhyw weithred a gymerir o fewn ysgolion.

Sut mae Penybont yn ymateb?

- Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol – i sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi'n briodol i'r rolau a'r cyfrifoldebau (drwy bwerau cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru)
- IDVA? IDSVA a MARAC
- Lloches (i fenywod)
- Lloches (i ddynion) (mae hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd)
- Assia Suite
- Llwybrau Cymorth i blant a phobl ifanc
- Llwybrau Cymorth i ddioddefwyr
- Asesiadau ar gyfer Teuluoedd
- Dulliau o ymyrraeth ar gyfer tramgwyddwyr

Yn eu tro, ymhelaethodd y Swyddogion Cyflwyno ar bob un o'r dulliau cymorth uchod, er budd yr Aelodau.

Roedd yr adroddiad (a'r cyflwyniad) yn nodi bod y pwnc dan drafodaeth wedi'i ddiffinio gyda'i gilydd fel:

"unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi neu fygwth, trais neu gam-drin rhwng y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb."

Gall hyn gynnwys ond heb fod wedi cyfyngu i gategorïau cam-drin megis y canlynol, er enghraifft:-

1. Seicolegol
2. Corfforol
3. Rhywiol
4. Ariannol
5. Emosiynol

Mae'r grwpiau caiff eu heffeithio gan drais domestig ac ati yn dod o dan faterion menywod, dynion, anabledd, ethnigrwydd, oedran, a grwpiau fel Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT).

Gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol fel rhan o'u harsylwadau ar gam-drin a thrais domestig ac ati:-

1. Y pwysigrwydd o roi mewn lle dulliau ymyrraeth ac atal cynnar;
2. Y pwysigrwydd o bob asiantaeth cyfrannu yn gweithio'n gydlynus ac ar yr un cyflymder a gyda'r â'r un nodau cyffredin;
3. Datblygu mesurau atal a rheoli trais domestig ac ati pellach, yn erbyn dynion yn ogystal â menywod;
4. Gwnaed cais am ddata pellach (uwchlaw'r hyn a geir yn yr adroddiad a'r cyflwyniad) yn manylu ar y nifer a'r gwahanol fathau o drais domestig sy'n digwydd ar draws gwahanol grwpiau o gymdeithas, gan gynnwys ar gyfer trawsrywedd (gan gynnwys y rhai mewn llochesi);
5. A oes yna ddigon o gymorth ar waith ar gyfer pobl hŷn sydd efallai'n dioddef o Gam-drin Domestig;
6. A oes mesurau digonol ar waith i gefnogi unhryw bartneriaid newydd o dramgwyddwyr risg uchel.

Caewyd y drafodaeth ar yr eitem hon gan yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet ros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar, drwy gymeradwyo faint o waith oedd yn cael ei wneud gan y sefydliadau partner perthnasol a weithiodd gyda'i gilydd i ddarparu cymorth i ddioddefwyr trais domestig, a chroesawodd fwy o ddata, fel gwerthuso gwahanol dueddiadau; pwy oedd yn y perygl mwyaf; a gwybodaeth bellach ynghylch canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr, ac ati.

Teimlodd y byddai gwybodaeth fel hyn yn gallu cael ei chynnwys mewn adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

20. MATERION SY'N WYNEBU POBL ANABL YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT – TACSIS

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, a roddodd adborth i'r Pwyllgor o ran tacsis sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn y fwrdeistref sirol.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu, o ganlyniad i gais gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2017, fod cwestiynau penodol ar dacsis sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael eu hychwanegu at yr ymgynghoriad trwyddedu ar dacsis.

Yna, amlinellodd wybodaeth benodol o ran ymgynghori'r Awdurdod Trwyddedu, a gwahanol ganlyniadau hyn, fel y manylir ym mharagraffau 4.1 i 4.3 o'r adroddiad.

Pwysleisiodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu mai canran fechan iawn o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, h.y. dim ond 35 a gafwyd yn gyfan gwbl, a hefyd y diffyg sylwadau esboniadol pellach. Fodd bynnag, ychwanegodd fod rhai themâu cyffredin wedi codi o'r ymgynghoriad, fel a ganlyn:-

- Roedd cerbydau hŷn a adeiladwyd at y diben (e.e. Tacsis Llundain) ar gael ar y farchnad a dylid eu hystyried ar gyfer trwyddedu;
- Cydbwyso'r gost uwch o brynu cerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn erbyn y gwaith ar gyfer y math hwn o gerbyd;
- Mae darparwyr cludiant hygyrch i gadeiriau olwyn eraill ar gael tu allan i'r sector tacsis, a
- Dylai cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn fod yn hawdd eu hadnabod gan y cyhoedd.

Aeth ymlaen i gynghori'r Aelodau er mwyn sicrhau nad yw teithwyr cadair olwyn yn wynebu gwahaniaethu wrth deithio, fod y Pwyllgor trwyddedu wedi cymeradwyo'r cynnig i gyhoeddi a chadw rhestr o 'gerbydau dynodedig' yn unol â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ôl darpariaeth yn y Ddeddf, yr oedd gofyniad cyfreithiol ar yrwyr pob cerbyd hacnai trwyddedig neu 'dynodedig' a cherbydau hurio preifat, i gludo teithwyr yn eu cadeiriau olwyn, i roi cymorth rhesymol i'r teithwyr hynny, ac i wahardd gyrwyr tacsi rhag codi tâl ychwanegol am y daith.

Roedd darpariaeth bellach yn y Ddeddf yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol gyhoeddi rhestr o 'gerbydau dynodedig' h.y. tacsis, sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ac roedd yr Adran Drwyddedu wedi ysgrifennu at bob perchennog cerbydau o'r fath gyda'r ddarpariaeth hon, gan eu cynghori o'u bwriad i gynnwys eu cerbyd ar y rhestr ac nad oedd unrhyw apeliadau wedi'u cyflwyno. . Ychwanegodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu bod yna ddarpariaeth yn y Ddeddf hefyd ar gyfer y rhai sy'n gyrru'r cerbydau dynodedig hyn, y cânt eu heithrio rhag y gofynion hyn yn y Ddeddf, er enghraifft os oes ganddynt gyflwr meddygol sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Ychwanegodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod yr holl gerbydau hacni/gyrwyr hurio preifat wedi'u hysbysu o'r gofynion newydd hyn, ac y gallent ofyn am eithriad ar sail fel y nodir uchod, os oedd angen gwneud hynny.

Ychwanegodd wedyn, y byddai rhestr o gerbydau dynodedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 1 Ebrill nesaf, ac yna'n cael ei diweddaru fel y bo'n briodol, yn fisol.

Daeth y Rheolwr Tîm - Trwyddedu â'r adroddiad i ben drwy atgoffa'r Aelodau eu bod hefyd wedi cael gwybod yn flaenorol am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio deddfwriaeth tacsis yng Nghymru. Byddai adroddiad pellach ar hyn yn cael ei ddarparu unwaith y byddai wedi cyhoeddi cynigion manylach ar yr un peth.

Nododd Aelod mai dim ond 35 o yrwyr tacsi oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnodd beth oedd y canran hyn o gymharu â chyfanswm nifer y gyrwyr y cysylltwyd â nhw (ond nad oeddent wedi ymateb).

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod 400-500 o lythyrau wedi'u hanfon at y fasnach, a chafwyd 35 o ymatebion iddynt, sef tua 7 i 8%.

Gofynnodd Aelod a roddwyd ystyriaeth i sesiwn hyfforddi cael ei roi mewn lle ar gyfer gyrwyr tacsis, er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa i ddarparu ar gyfer teithwyr anabl gyda gwahanol anghenion a gofynion.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod hyn yn ffurfio rhan o'r Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrwyr y byddai'n rhaid i bob gyrrwr tacsi newydd ei fynychu (fel gyrwyr newydd).

Awgrymodd un aelod y dylai hefyd fod yn ddyletswydd ar yrwyr presennol yn ogystal â gyrwyr newydd i fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrwyr.

Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Trwyddedu y gellid ymgymryd â rhywfaint o ymchwil, er mwyn canfod pa yrwyr presennol oedd wedi cwblhau'r Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrwyr, a'r rhai nad oedd wedi gwneud hynny, y gellid eu gwahodd i sesiwn yn y dyfodol, gan gynnwys rhai a oedd â cherbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn Cerbydau.

Roedd yr Arweinydd yn siomedig gyda lefel yr ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod Trwyddedu. Ychwanegodd ei fod yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol hefyd i hysbysu'r rhestr o 'gerbydau dynodedig' sydd ar wefan y Cyngor. Byddai hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn helpu â'r broses ymgynghori gyda'r gyrwyr tacsi.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

21. ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 A SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Dywedodd ei bod wedi cynnal archwiliad o'r 11 safon sy'n weddill, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, er mwyn i'r awdurdod allu cynnig dyddiadau cydymffurfio newydd i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Ers i hwn gael ei gwblhau ym mis Chwefror, adroddodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu bod Swyddfa'r Comisiynydd bellach wedi cael gwybod y cydymffurfiwyd â dwy safon arall mewn perthynas â hyfforddiant. Cynhaliwyd cyfarfod wedi hynny hefyd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth yn gynharach y mis hwn, i drafod safbwynt y Cyngor ar y 9 safon sy'n weddill. Ychwanegodd y byddai cyfarfod pellach mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drefnu gyda'r Comisiynydd.

Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu bod hyn wedi digwydd diwethaf ar 5 Rhagfyr i drafod perfformiad y Cyngor yn erbyn y safonau, arferion, risgiau a heriau llwyddiannus, fel rhan o'u proses adolygu barhaus o awdurdodau lleol ledled Cymru.

Fel rhan o hyn, cynhaliwyd ymarfer siopwr dirgel hefyd rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, a oedd hefyd yn cynnwys safonau nad oedd yn ofynnol i ni gydymffurfio â nhw ar y pryd. Roedd yr adran hon o'r adroddiad hefyd yn cynnwys rhai arsylwadau am y safonau yr oedd yr awdurdod yn cydymffurfio â nhw ar y pryd. Roedd y rhain ar ffurf adborth o ran galwadu ffôn, safle we'r Cyngor ac ychydig o faterion 'Eraill'.

O ran materion mwy cyffredinol, cynghorodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu fod y staff yn parhau i dderbyn diweddariadau a nodiadau atgoffa

rheolaidd drwy e-bost, a'u bod hefyd yn gallu cael mynediad at gyfres o hyfforddiant iaith Gymraeg.

Cysylltodd Swyddfa'r Comisiynydd â'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch eu derbyniad o'r hysbysiadau cydymffurfio, mewn perthynas â'u Cod Ymarfer drafft sy'n cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, er mwyn i ddehongliad Cod fod yn gyson ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd a phob awdurdod lleol. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fod yn glir ynghylch pob safon o ran yr hyn yr oedd y Comisiynydd yn disgwyl oddi wrthynt wrth gyflawni'r rhain yn llwyddiannus. Ychwanegodd y byddai pob cyngor ledled Cymru yn cael eu dal i gyfrif o ran y safonau gwahanol yr oedd yn rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â nhw.

Aeth y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu ymlaen i ddweud na dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol ers yr adroddiad diweddaru ym mis Gorffennaf 2017. Ychwanegodd fod gwaith yn dal i fynd rhagddo mewn perthynas â'r ymchwiliad i argaeledd gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daeth â'i chyflwyniad i ben, drwy nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol yn cyfateb i'r dehongliad o Swyddfa'r Comisiynydd ar y Safonau, er bod mwy o waith yn ofynnol gennym ar gydymffurfiaeth lefel 4 sy'n ymwneud â safonau penodol.

Pan bydd yr ymgynghoriad wedi ei gwblhau'n llawn, cadarnhaodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu y byddai'r rhain yn cael eu rhannu yn y lle cyntaf gyda Chadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet, a'r Arweinydd.

Roedd un aelod yn teimlo ei bod yn galonogol gweld bod staff presennol y Cyngor yn ystyried cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig y rheini yr oedd eu sefyllfa o fewn yr awdurdod yn ymwneud â delio ag aelodau'r cyhoedd.

Cynghorodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu fod hyn yn waith parhaus, a bod rhai gweithwyr wedi cwblhau lefel 1 o Safon y Gymraeg, a'u bod yn awyddus i symud ymlaen i Lefel 2. Mae 400 o staff wedi cael eu hyfforddi ers 2016, ond roedd angen i staff ychwanegol a oedd yn delio â gwasanaethau cwsmeriaid ddilyn peth hyfforddiant.

Cynghorodd yr Arweinydd y dylid annog prentisiaid a hyfforddeion i ddilyn hyfforddiant iaith Gymraeg.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

22. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016/2017

Cyflwynodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y gwaith a wnaed yn y cynllun cydraddoldeb strategol 2016-2020 am y cyfnod 2016-17, a'r adroddiad blynyddol cysylltiedig am 2016-17.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhywfaint o wybodaeth gefndirol, ac yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol 2016-17 sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017, a rhaid ei gyhoeddi/sicrhau ei fod ar gael erbyn 1 Ebrill 2018.

Yr amcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer 2016-2020 yw

- Cludiant
- Meithrin perthnasau da a chodi ymwybyddiaeth
- Ein rôl fel cyflogwr.
- Iechyd meddwl
- Plant
- Hamdden, celfyddydau a diwylliant
- Data

Cynghorodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu fod cynlluniau gweithredu yn cefnogi pob un o'r amcanion uchod.

Yna cyfeiriodd at baragraff 4.3 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys rhai pwyntiau allweddol i'w nodi o'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys rhai camau allweddol a gymerwyd, a rhoddodd grynodeb o'r rhain er budd y Pwyllgor.

Roedd Aelod yn falch o weld o'r adroddiad bod y Cyngor wedi parhau i nodi, cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o Wythnos Faethu a Mabwysiadu LHDT, a gofynnodd faint o ddiddordeb oedd yn y maes hwn, h.y. faint o ymweliadau oedd ar y wefan ac ati.

Cadarnhaodd y rheolwr cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu y byddai'n gwneud gwaith ymchwil ar hyn, ac yn dychwelyd at yr Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd un o'r Aelodau at dudalen 32 yr adroddiad blynyddol, a dywedodd ei fod yn sicr ei bod yn ofynnol rhannu'r sefyllfa o ran gwybodaeth am nifer y gweithwyr yn y Cyngor, a'r dadansoddiad o'r rhain yn ôl rhyw a graddfa gyflog, gyda Llywodraeth Cymru, gan ein bod yn gorff cyhoeddus.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu y byddai angen iddi wirio'r pwynt hwn gyda'r Adran Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gweithlu, ac unwaith eto ddod yn ôl at yr Aelodau fel rhan o adborth o'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud, ac yn cymeradwyo adroddiad blynyddol 2016/17 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

23. ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL 2017/18

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, a'i ddiben oedd darparu diweddariad blynyddol i'r Aelodau ar ofyniad y Cyngor i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), trosolwg o ymagwedd y Cyngor tuag at yr asesiadau, ac amlinelliad o'r AEG a gynhaliwyd yn ardaloedd gwasanaeth CBS Penybont-ar-Ogwr yn 2017/18.

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol, ac ar ôl hynny fe'i cynghorwyd fod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn declyn i asesu a allai polisïau/gwasanaethau/swyddogaethau newydd, presennol, neu rhai i'w dileu, cael effaith ar wahanol sectorau o gymdeithas mewn ffyrdd gwahanol. Mae ymgymryd ag AEGau yn cynorthwyo'r Cyngor hefyd i wneud penderfyniadau gwell; nodi sut y gallai gwasanaethau fod yn fwy hygyrch neu well, ac ystyried y nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r effaith ar y cynllun iaith Gymraeg a'r Safonau cysylltiedig.

Parhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb i gadarnhau bod y Safonau Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i CBS Penybont-ar-Ogwr ystyried:

- • A allai penderfyniad sy'n gysylltiedig â pholisi gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- Dangos ffyrdd o gynyddu effeithiau positif, a
- Sut i leihau'r effeithiau negyddol a nodir.

Cafodd y pecyn cymorth AEG ei ddiwygio a'i ddiweddaru ym mis Chwefror 2018, gan gynnwys y sgrinio AEG a ffurflenni asesu llawn.

Ychwanegodd y byddai'r gwaith o weinyddu'r prosesau AEG yn cael ei adolygu'n ddiweddarach yn 2018 gan y tîm cydraddoldeb, er mwyn cynorthwyo meysydd gwasanaeth wrth iddynt reoli'r broses.

Roedd adrannau nesaf yr adroddiad yn cyfeirio at hyfforddiant AEG i staff drwy fodiwl e-ddysgu, a nifer y cyflogeion a nodwyd ar gyfer hyfforddiant yn y maes hwn, gan gynnwys nifer (a chanran) y rhai a gwblhaodd hyn.

Roedd paragraff 4.9 o'r adroddiad wedyn yn amlinellu hyfforddiant pellach a mwy trylwyr a oedd wedi cael ei ystyried ar gyfer datblygu, i gael ei gyflwyno gan hyfforddwyr allanol, sef 'Red Shiny Apple'. Roedd rhai wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth, ac roedd yr adborth gan y rhai a ymgymerodd â hyn wedi bod yn gadarnhaol. Roedd nifer y cyflogeion a oedd wedi'u hyfforddi hefyd wedi cynyddu o 17, sef y nifer a oedd wedi mynychu adeg ysgrifennu'r adroddiad, i gyfanswm cyfredol o 46. Roedd yr adran hon o'r adroddiad hefyd yn manylu ar yr amcanion y byddai cyfranogwyr yn eu cyflawni o ganlyniad i'r sesiwn hyfforddi uchod.

Yna, rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fanylion am nifer yr AEGau llawn a oedd wedi'u cwblhau rhwng mis Chwefror 2017 a mis Ionawr 2018, a rhestrwyd y rhain yn Atodiad 1o'r adroddiad, ac roedd rhain wedi cyd-fynd ag adroddiadau swyddogion yn flaenorol i'w hystyried gan y Cabinet.

Yna amlinellodd Atodiad 2 nifer y sgrinio AEG a gynhaliwyd am yr un cyfnod, sef cyfanswm o 42.

Cwblhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb ei hadroddiad, gan gynghori y byddai'r wybodaeth yn yr adroddiad yn helpu'n gadarnhaol i gyflawni dyletswyddau a dyheadau'r Cyngor o ran cydraddoldeb.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2017/18, ynghylch cwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (AEG); adolygu'r pecyn cymorth a'r ffurflenni, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed o ran hyfforddiant (h.y. drwy e-ddysgu a datblygu hyfforddiant wyneb yn wyneb.

24. BLAENRAGLEN WAITH 2018-2019.

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, a oedd wedi'i atodi fel Atodiad 1 Blaenraglen Waith ddrafft sy'n rhoi manylion am eitemau a ddaw i gael eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Teimlodd un aelod y dylid ychwanegu eitem arall at y Blaenraglen Waith i'w ystyried mewn cyfarfod rhywbryd y flwyddyn nesaf, sef diweddariad ar Drais/Cam-drin yn y Cartref (i gynnwys trais/cam-drin yr henoed).

Cytunodd Aelodau a Swyddogion gyda'r cynnig hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi, a'r Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2018/19 (yn cynnwys yr eitem ychwanegol uchod) yn cael ei chymeradwyo.

25. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00